

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG
FESTIVAL 2022 LTD DRWY GYNHADLEDD FIDEO, DYDD MERCHER 02 CHWEFROR
2022, 14:00 – 16:00**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creativity in the UK")

Yn Bresennol:

Faraz Tasnim

Amali de Alwis MBE

Roger Lewis

Liam Hannaway

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cyfarwyddwr
Anweithredol

Cyfarwyddwr Anweithredol

Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru

Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon

Yr Arsyllwyr a oedd yn Bresennol:

Greg Wilson

Sonia Coates

Daniel Coles

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a
Chwaraeon ("DCMS")

Price Waterhouse Cooper ("PWC")

PWC

Alison Breadon

Adam Richards

Yn bresennol:

Phil Batty

David Grady

Caroline McGrory

Laura O'Flynn

Sarah Tromans

Gabriella Butler

John Darnbrook

Lucy Bailey

Sarb Hair

Cyfarwyddwr Gweithredol

Prif Swyddog Ariannol

Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni

Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)

Pennaeth Rheolaeth Ariannol

Uwch-reolwr Cyllid

Pennaeth Integreiddio Busnes

Uwch-gwnselydd Cyfreithiol

Cydlynnydd Gweithrediadau Corfforaethol

09/22 Croeso a phwrpas y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda gan ganolbwyntio'n benodol ar yr Adroddiad Perfformiad Cyllid a'r asesiad fforddiadwyedd yn dilyn y cyfeiriad strategol a ddarparodd y Bwrdd yn y cyfarfod eithriadol ar 28 Ionawr.

10/22 Cymeradwyo cofnodion a materion sy'n codi

Caewyd sawl cam gweithredu a chymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion mis Tachwedd 2021 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cyfarfod eithriadol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 21 Ionawr 2022, trosolwg o'r cyfarfod fel y'i cyflwynwyd yng nghyfarfod eithriadol y Bwrdd ar 28 Ionawr 2022 ar ffurf nodyn briffio. Cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod hyn yn adlewyrchiad cywir ac y bydd yn ffurfio'r sail ffeithiol ar gyfer y cofnodion ffurfiol, a rhoddodd gymeradwyaeth i'w cau drwy'r Cyfarwyddwr Gweithredol.

Rhoddodd y Cadeirydd atgrynhoed i'r Pwyllgor o drafodaeth eithriadol cyfarfod y Bwrdd, a chyflwynodd y cwestiwn allweddol a her ar gyfer y cyfarfod hwn fel asesiad fforddiadwyedd y gostyngiad arfaethedig wrth gefn.

Cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i edrych yn gyfannol ar y portffolio cyffredinol o gomisiynau ac nid ar brosiectau unigol yn unig, yn enwedig o ran dyfarniadau ariannol.

Atgoffodd Roger Lewis y Pwyllgor mai ef yw Cynrychiolydd Bwrdd UNBOXED Cymru a'i fod yn fwy cysylltiedig â phrosiect Cymru o'r herwydd, a chydabuwyd nad oedd y diddordeb hwn yn effeithio ar y trafodaethau a gafwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y cyfarfod hwn.

11/22 Diweddariad Gweithredol

Mae Amali de Alwis wedi ei chymeradwyo fel yr arweinydd prosiect anweithredol ar gynaliadwyedd. Nodwyd bod y Bwrdd yn gefnogol i'r prosiectau gradd coch a chadarnhawyd bod y Bwrdd wedi darparu hyrwyddwr prosiect ar gyfer pob un ohonynt, a fydd yn cwrdd â'r Swyddog Gweithredol i drafod pob prosiect gradd coch.

12/22 Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adroddiad Perfformiad Cyllid

Dywedodd y Prif Swyddog Ariannol fod y papur yn canolbwyntio ar y Perfformiad Ariannol a'r Cynllunio Wrth Gefn presennol, yn unol â'r risgiau a'r costau y mae'r sefydliadau a gomisiynwyd yn mynd iddynt.

Atgoffodd y Prif Swyddog Ariannol y Pwyllgor y byddai Cyfrifon Blynyddol eleni yn cael eu paratoi ym mis Medi 2022 ar sail blwyddyn gyfrifyddu estynedig, fel y'i cymeradwywyd gan DCMS.

Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yr asesiad o'r sefyllfa wrth gefn bresennol. Cytunodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyfleu'r sefyllfa Wrth Gefn a gymeradwywyd i'r Bwrdd er mwyn ei chadarnhau'n ffurfiol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Ariannol sefyllfa bresennol Cyllideb Hyd Oes 2.0, gan nodi'r sefyllfa wrth gefn weddilliol ar ôl i'r gostyngiad gael ei gymeradwyo.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol y byddai hyn yn cael ei wneud drwy'r broses gymeradwyo ffurfiol, gan gynnwys protocolau y cytunwyd arnynt gyda DCMS, a gadarnhawyd yn y cyfarfod gan Dan Coles.

Nododd Roger y gellid buddsoddi gwarged mewn gweithgarwch a fyddai'n gadael etifeddiaeth.

CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gynnwys y sefyllfa wrth gefn bresennol yn Adroddiad 2 Mawrth 2022 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Bwrdd.

Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y posibilrwydd bod risgiau anhysbys eraill mewn swyddogaethau corfforaethol, ac y byddai'r Bwrdd yn dymuno gweld y rhain cyn gynted â phosibl. Cytunodd y Prif Swyddog Ariannol y byddai hyn yn cael ei herio yn y Tîm Rheoli Gweithredol cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y dyfodol.

13/22 Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Llif Prosiectau Caffael

Lluniodd y Pennaeth Integreiddio Busnes yr eitem o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn adolygu caffaeliadau dros £1 miliwn sydd yn y llif prosiectau a chael gwybod am wariant dros £175,000. Trafodwyd hyn gan y Pwyllgor a gytunodd fod y gweithgaredd hwn yn adlewyrchu sefyllfa'r rhaglen ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth am statws oren caffaeliadau penodol.

14/22 Archwiliad Mewnol

Cadarnhawyd mai dim ond un argymhelliad o'r Archwiliadau Mewnol blaenorol oedd heb ei gwblhau, sef paratoi meddalwedd adrodd am ddiwyddiadau iechyd a diogelwch. Cadarnhaodd y Swyddog Gweithredol y bydd hyn ar waith erbyn diwedd mis Chwefror 2022. Mae traciwr gweithredu UNBOXED, a bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r archwilwyr yn cadw i fyny ag UNBOXED er mwyn sicrhau y gellir cyflawni cynlluniau o fewn yr amserlenni.

Lluniodd AR weddill yr eitem a dywedodd fod y papur yn adlewyrchu tri adroddiad terfynol, gan nodi meysydd allweddol.

1) Adroddiad ar reolaethau allweddol y Pwyllgor Trefnu – Dangosodd canlyniadau archwilio y Pwyllgor Trefnu fater sy'n effeithio ar grŵp y cwmni. Ni nododd yr archwiliad unrhyw eithriadau ar TG nac Adnoddau Dynol sy'n benodol i UNBOXED. Bydd Pwyllgor Archwilio y Pwyllgor Trefnu yn cwrdd ar 3 Chwefror 2022 a bydd y Prif Swyddog Ariannol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y cyfarfod hwn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

2) Adroddiad ar y fframwaith rheoli prosiectau i gefnogi'r 10 comisiwn – Nododd yr archwiliad rai argymhellion ynghylch amserlen adrodd, swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch-gynhyrchwyr a chynnwys a strwythur yr adroddiad portffolio. Nodwyd bod y Pennaeth Integreiddio Busnes wedi gweithredu nifer o'r gwelliannau a nodwyd i'r adroddiad.

3) Adroddiad ar gapasiti a rheoli adnoddau – Dywedwyd wrth y pwyllgor mai'r pwyslais allweddol yw sicrhau bod y gofynion adnoddau yn dryloyw yn ystod cyfnod diddymiad, a bod cydweithwyr yn glir ynghylch yr hyn a gyfathrebwyd mewn cysylltiad â pholisi diswyddo ac unrhyw gymorth all-leoli.

CAM GWEITHREDU: Y Prif Swyddog Ariannol i ddarparu ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch camau archwilio y rheolaethau allweddol.

CAM GWEITHREDU: AR i lunio papur/cyflwyniad byr i'r Bwrdd sy'n amlinellu'r dull archwilio mewnol a'r cynnydd.

15/22 Adroddiad ar Gynllunio Archwiliad

Lluniodd GW y papur a thrafododd yr uchafbwyntiau allweddol, gan atgoffa'r Pwyllgor na fyddai hwn yn archwiliad safonol oherwydd diwedd y flwyddyn 18 mis. Bydd gwariant comisiynu yn faes pwyslais allweddol, a bydd yr archwiliad yn ystyried taliadau sy'n cael eu harchebu yn yr amserlenni cywir, yn unol ag arian cyhoeddus, ac wrth fodloni'r disgwyliadau a nodir yn y contract. Bydd y risg o dwyll yn cael ei ystyried yn rhan o'r archwiliad.

Bydd y tîm yn samplu data allweddol, yn asesu a oedd yn unol â pholisi a'r hyn a ddirprwywyd, ac yn sicrhau nad yw penderfyniadau barn rheolwyr wedi bod yn rhagfarnllyd.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Cyfarwyddwr Rheolaeth Ariannol a'r Rheolwyr Contractau adolygu'r ffoedd archwilio rhagamcanol

yn unol â Chyllideb gyffredinol Hyd Oes 2.0 a chadarnhau ffi derfynol â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyd yn cefnogi'r dull gweithredu a chymeradwywyd y Cwmpas Archwilio Allanol ganddynt.

16/22 Rheoli Risgiau: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Adroddiad Portffolio a dilyniant i Drafodaeth 28 Ionawr 2022 y Bwrdd)

Lluniodd y Pennaeth Integreiddio Busnes y papur ac atgoffodd y Pwyllgor fod 95 o risgiau strategol wedi eu nodi yn ystod y 18 mis diwethaf, sydd wedi gostwng i 63 erbyn hyn, a ddangosodd fod 32 o'r risgiau wedi eu lliniaru a'u cau, gan ddangos y dull o reoli risgiau'n barhaus sydd wedi ei ymwreiddio.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y gwaith gwerthuso a'r metrigau effaith y mae KPMG yn eu pennu. Teimlai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y bydd hyn yn ddull defnyddiol ac atgoffwyd mai dogfen paramedrau prosiect yw'r hyn y bydd UNBOXED yn dwyn pob prosiect i'w gyflawni. Erys gwerthuso ac etifeddiaeth yn faes i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adolygu yn y dyfodol a gwnaed cais i gyflwyno rhagor o wybodaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Y Tîm Gweithredol i wahodd KPMG i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 6 Ebrill 2022 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Dylid estyn y gwahoddiad i holl aelodau'r Bwrdd.

Holodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd sut mae UNBOXED yn datblygu cysylltiadau ehangach â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymorth trawsbleidiol i liniaru risgiau y dirwedd wleidyddol bresennol. Cytunodd y Swyddog Gweithredol i ystyried a ellir gwneud mwy mewn cysylltiad â materion cyhoeddus a chynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn rheolaidd.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Integreiddio Busnes i rannu'r map trywydd ar draws ychydig o dudalennau fel y bydd yn haws ei ddarllen wrth baratoi ar gyfer y diweddariad nesaf.

17/22 Unrhyw Fusnes Arall

Ni chodwyd 'unrhyw fusnes arall'.

Myfyrdodau a sylwadau olaf

Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bod y Bwrdd wedi cwblhau adolygiad effeithiolrwydd yn ddiweddar ac y trafodir y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gadarnhaol ynddo. Cymerodd y Cadeirydd ennyd i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y Pwyllgor am eu gwaith.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00. Cadarnhawyd mai 6 Ebrill 2022 fydd dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf, ac mai cyfarfod rhithwir y bydd hwnnw.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:
Cyfarwyddwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Arsyllwyr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Y Tîm Rheoli Gweithredol



CREATIVITY IN THE UK

Dyddiad anfon at y Cadeirydd:	21 Chwefror 2022
Dyddiad dychwelyd i'r Gweinyddwr:	21 Chwefror 2022
Dyddiad dosbarthu:	6 Ebrill 2022